

**Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU  
(Archwiliadau Safle)**

**10 Chwefror 2020**

Yn bresennol: Y Cynghorydd M Williams (Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)  
Y Cynghorydd Mrs D Clements, Mrs S Hoss, y Cynghorydd  
M James, y Cynghorydd P Kidney, y Cynghorydd PJ  
Morgan, Dr RM Plummer a'r Cynghorydd A Wilcox.

(Archwiliad Safle ym Mhenalun: 10.30 am - 11.00 am)

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd P Baker, y Cynghorydd K Doolin, y Cynghorydd M Evans, y Cynghorydd P Harries, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Mr G Jones, y Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd S Yelland.

**2. Datblygiad Un Blaned i gynnwys caban, sied, ysgubor da byw, ysgubor gynnyrch, toiled compost, tŷ gwydr, stondin wrth iet y fferm a symud gwrych i greu man parcio ceir (ôl-weithredol yn rhannol) – Lily Pond Farm, Whitewell Lane, Penalun, Dinbych-y-pysgod**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod a chawsant eu hatgoffa mai unig bwrpas yr ymweliad y diwrnod hwnnw oedd galluogi'r Aelodau i ymglyfarwyddo â safle'r cais a'r ardal o'i amgylch. Ni fyddai unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud hyd nes byddai'r cais cynllunio yn cael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

Atgoffwyd yr Aelodau fod y cais hwn wedi cael ei ystyried yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu ym mis Rhagfyr 2019 pan gafodd ei ohirio er mwyn medru gwneud archwiliad safle. Gofynnwyd am ganiatâd cynllunio ar gyfer un annedd dros dro ar ffurf caban a oedd yn ffitio o fewn y diffiniad o garafán a nifer o dai mas o dan egwyddorion Datblygu Un Blaned. Roedd y cais yn un rhannol ôl-weithredol gan fod sied/swyddfa/storfa eisoes wedi'u hadeiladu, ysgubor wedi'i chodi'n rhannol a'r fynedfa a'r maes parcio eisoes wedi'u gwneud. Roedd yr ymgeiswyr yn bwriadu diwallu eu hanghenion drwy ffermio'r tir gyda cheffylau trwm, gan gynhyrchu gwenith, ceirch, haid, tatws, moron, ffa, winwns a chennin yn bennaf.

Dywedodd y swyddog fod y cynlluniau a'r cynllun rheoli diweddaraf wedi dod i law 10 diwrnod ynghynt, ond nad oeddynt eto wedi cael eu hasesu'n llawn. Dosbarthwyd y cynlluniau diweddaraf i'r Pwyllgor ac roedd y rhain yn dangos bod y toiled compost wedi'i symud i ffwrdd o'r nant. Tynnwyd sylw at leoliadau'r ysguboriau a'r sied a adeiladwyd yn rhannol yn ogystal â lleoliad arfaethedig y caban, a oedd wedi'i farcio.



Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, dywedodd yr asiant nad oedd y Cynllun Busnes wedi newid, ond dywedodd er gwaethaf y ffigurau cynhyrchu ceidwadol a oedd ynddo, fod yr ymgeiswyr yn dal i ragweld y byddai'r incwm targed yn £10,000 erbyn y bumed flwyddyn. Aethpwyd i'r afael â'r holl faterion a amlygwyd yn yr adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor ac roedd biliau milfeddyg bellach wedi'u cynnwys yn y costau.

Yna eglurodd yr ymgeisydd ei fod yn ymgymryd â'r prosiect gan ei fod yn cymryd o ddifrif ei gyfraniad at fynd i'r afael â'r problemau a achosir gan ddifrod parhaus i'r amgylchedd. Credai y gallai syniadau syml wneud cyfraniad, ac y byddai argyfwng yn digwydd oni bai y cymerir camau i'w atal. Nid oedd ffermio'r tir yn wirioneddol ddichonadwy ac nid oedd yn disgwyl gwneud elw. Fodd bynnag, nid oedd yn credu y byddai'r hyn yr oedd yn ei wneud yn niweidio'r gymuned na'r amgylchedd.

Gofynnodd Aelod beth fyddai'n digwydd ar ôl pum mlynedd, ac atebodd yr asiant y byddai'r Cynllun Rheoli'n cael ei ddiweddarau bob pum mlynedd a bod yn rhaid cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Awdurdod yn dangos sut roedd y meini prawf a bennwyd yn y Cynllun Rheoli yn cael eu bodloni, a sut y byddai unrhyw broblemau'n cael eu datrys. Yn y pen draw, pe na byddai'r trothwyon yn cael eu bodloni, byddai'r strategaeth ymadael yn dod i rym a fyddai'n golygu bod pob adeilad yn cael ei symud o'r safle.

Yna cerddodd yr aelodau i lawr at waelod y safle i weld y sied a oedd wedi'i hadeiladu. Byddai hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer paratoi bwyd (gwneud bara) yn ogystal â storio bwyd. Cawsant wybod y byddai'r garafán ar y safle ar hyn o bryd yn cael ei symud ar ôl cwblhau'r caban. Roedd y safle'n wlyb, a chan ei fod ar dir ar oleddf, roedd yn llithrig dros ben; nodwyd bod un o'r cynlluniau a ddosbarthwyd yn dangos y byddai llwybr carreg yn cael ei osod ar ran isaf y safle.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r ymweliad safle a chaeodd y cyfarfod.

